# SGILIAU A MENTORA
## Rhagfyr 2017 – Chwefror 2018

**Statws RAG**

■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Hyfforddiant ■


Gweler dadansoddiad o'r nifer o gyrsiau a gwblhawyd fesul categori hyfforddiant ar gyfer y cyfnod hwn isod:

| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u 'Cymeradwyo' |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 68 |
| Categori 2 – Technegol | 186 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 112 |
| CYFANSWM | 366 |


Yng Nghategori 1 – Gwella'r Busnes, y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd Cynllunio Busnes a Marchnata eich Busnes. Y cyrsiau gyda'r mwyafrif o geisiadau yng Nghategori 2 – Hyfforddiant Technegol oedd Rheoli Cnofilod ar Ffermydd a Chymorth Cyntaf yn y Gweithle. O fewn Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer roedd y rhan fwyaf o'r cyrsiau a gwblhawyd yn ymwneud â phlaladdwyr.

### Ystadegau Ymgeisio

Mae'r tabl isod yn dangos y darparwyr hyfforddiant mwyaf gweithgar o fewn y cyfnod hwn, gan nodi'r nifer o gyrsiau a gwblhawyd.




Mae'r tabl isod yn dangos y nifer y cyrsiau a gwblhawyd fesul sir.




### CYNLLUN DATBLYGU PERSONOL

Ers dechrau'r rhaglen mae cyfanswm o **3609** cleient wedi cwblhau Cynllun Datblygu Personol. Crëwyd **195** CDP newydd yn ystod y cyfnod hwn.



### E-ddysgu

Mae cyfanswm o **45** cwrs e-ddysgu bellach ar gael ar wefan BOSS a chafodd **120** cwrs eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn. Y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd:

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | 62 |
| Cloffni mewn Defaid | 7 |
| Rheoli Ysgall | 6 |
| Rheoli Brwyn | 6 |

### Agrisgôp ■

**38** GRŴP GWEITHREDOL gyda **312** AELOD yn mynychu cyfanswm o **45** CYFARFOD

**Pynciau Trafod:**



## Academi Amaeth

### Dosbarth 2017 yn cwblhau'r Academi Amaeth a dechrau'r chwilio am Ddosbarth 2018

Ar y 23ain o Ionawr lansiwyd yr Academi Amaeth 2018 ym Mrecwast yr FUW yng Nghaerdydd a dechreuodd y gwaith chwilio am y garfan nesaf o arweinwyr gwledig ac entrepreneuriaid y dyfodol. Ar yr un diwrnod, daeth y grŵp Arweinyddiaeth Wledig at ei gilydd am eu sesiwn olaf, a'r diwethaf, lle cafwyd cyfarfod gyda Lesley Griffiths Ysgrifennydd y Cabinet, Dr Tim Render, Yr Athro Christianne Glossop a Gary Haggaty.





### Aduniad Alumni Academi Amaeth

Cynhaliwyd digwyddiad Aduniad yr Academi Amaeth yng Ngwesty'r Marine ar y 26ain o Ionawr. Daeth y digwyddiad â chyn-aelodau o ddosbarthiadau 2012-2017 at ei gilydd i atgyfnerthu'r cysylltiadau gwerthfawr a gafwyd trwy'r Academi Amaeth yn ogystal â chyfle i ffurfio rhwydwaith newydd sbon. Roedd hefyd yn gyfle i ddathlu cyflawniadau'r Academi Amaeth drwy ddangos eu gwerth i'r diwydiant. Rhoddodd y sesiynau rhyngweithiol a drefnwyd y cyfle i rhanddeiliaid diwydiant allweddol ddefnyddio gwybodaeth a barn cyn-aelodau'r Academi i lywio polisi a darpariaeth y dyfodol.

Prif siaradwyr y diwrnod oedd Sean Taylor, cyd-sylfaenydd Zip World, a'r newyddiadurwraig Anna Jones. Cafwyd hefyd Banel Hawl i Holi a Sesiwn Rhwydweithio Sgwrsio'n Sydyn gyda rhanddeiliaid diwydiant allweddol a gwestai arbennig. Daeth y digwyddiad i ben gyda'r siaradwr wedi'r swper sef Dr Jonathan Birnie a bu'n trafod wynebu newid o fewn y diwydiant amaeth.

Rhai sylwadau gan yr alumni...

*'Mwynheais y cyfle i ofyn cwestiynau yn ystod y sesiwn sgwrsio'n sydyn yn hytrach na gorfod gofyn o flaen cynulleidfa fawr a rhoddodd gyfle i bawb siarad. Digwyddiad gwych, diolch.'*

*'Cyfleoedd gwych i rwydweithio gyda phobl o'r un anian a chwrdd pobl ni fyddech yn cael cyfle i siarad â hwy fel arall.'*

*'Cyfle gwych i drafod materion perthnasol a chael ein cwestiynnu i ehangu ein syniadau a'n meddyliau o'r diwydiant a'r cyhoedd.'*

*'Pobl o'r un meddylfryd yn dod at ei gilydd er mwyn rhwydweithio a chydweithio i greu diwydiant amaeth dirgrynol a llewyrchus yng Nghymru.'*

*'Cyfle ffantastig i gymysgu!'*

*'Gwych cael dysgu am y diwydiant a rhwydweithio.'*

Cliciwch ar y Sgrin Deledu i weld fideo o Alumni'r Academi Amaeth yn rhannu eu profiadau Academi Amaeth.



## Mentora

**109** MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**12** MENTAI NEWYDD

**39%** O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI


Ffeithiau Cyflym:

- MAE DROS 700 AWR O FENTORA WEDI'U COFNODI HYD YMA
- MAE 280 O RYNGWEITHIADAU MENTORA WEDI'U COFNODI
- MAE 17% O'R MENTAI YN FENYWOD
- MAE 61% O'R MENTAI O'R SECTOR CIG COCH
- Y MENTORIAID MWYAF POBLOGAIDD YW **DAFYDD PARRY JONES** A **MEILIR JONES**
- MAE 12% O'R HOLL FENTAI O SIR FRYCHEINIOG


**44%** MAE 44% O'R MENTAI YN **25-40** MLWYDD OED

MAE 5 MENTAI DROS **65** MLWYDD OED

Mentai fesul amrediad oedran




Cliciwch yma i ddysgu mwy am y Rhaglen Fentora.



### Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

**Facebook 20/02/2018**

Os wyt ti'n angerddol am ffermio, am Gymru ac am dy ddyfodol – ymgeisia heddiw ar gyfer rhaglen Busnes ac Arloesedd yr Academi Amaeth! http://bit.ly/2kaQpZj

**Mae'r cyfnod ymgeisio ar agor NAWR hyd 30 Mawrth 2018**

Mae gwybodaeth lawn am holl raglenni'r Academi Amaeth i'w gael ar ein gwefan http://bit.ly/1ZycPO3

Pobl a Gyrhaeddwyd – **13,040**

Hoffi, Sylwadau a Rhannu – **71**